# Why you should register your School's Out of School Childcare Club with Care Inspectorate Wales?

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

(formerly Care and Social Services Inspectorate Wales [CSSIW])

### Why is Care Inspectorate Wales registered childcare so important?

In Wales, child minding and the provision of day care is subject to regulation by Welsh Government and inspected by the Care Inspectorate Wales (CIW), formerly Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW). If childcare provision runs for more than 2 hours per day for children up to the age of 12 years, it must by law be registered with the Care Inspectorate Wales. CIW ensures that care services meet the standard that the public expects through inspections. CIW is responsible for inspecting day care services for children including Day Nurseries, Childminders, Playgroups, Crèches and Out of School Childcare Clubs (including Holiday Childcare Clubs).





### Benefits to the club

As the provider of the service, along with the peace of mind that you are offering a quality service that is able to meet the ongoing childcare needs of families accessing your school, you will also:- enable families to access help with the cost of childcare fees, relieving financial stress on families and increasing the sustainability of the club;

- attract families to the school – availability of registered childcare provision is an influencing factor when moving house and choosing schools;
- support and create employment opportunities within the local community;
- be able to deliver The Childcare Offer - only registered Out of School Childcare settings are able to deliver the Offer.
  - o The Childcare Offer will provide eligible working parents* with up to a maximum of 30 hours of combined Government-funded childcare and early education for eligible 3 and 4 year olds for up to 48 weeks of the year. *see guidance for eligibility, http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/information-for-parents/?lang=en.
  - o offering a place to an eligible child WILL mean greater sustainability for your club – would up to £3,510.00 additional income to your After School Club, or £1,215 additional income to your Holiday Club, per child, make a difference?
- be confident that the childcare provision on your premises meets relevant childcare regulations and is offering a quality service that is regulated and inspected to Welsh Government standards. Quality childcare results in better outcomes for children
- benefit children, who would feel more comfortable in school, resulting in improved school attendance and greater pupil achievement;
- be confident that all staff working within the provision hold relevant childcare / Playwork qualifications as well as other training such as first aid, food hygiene and safeguarding. This ensures that staff are suitably trained to manage a childcare setting outside of the school day, when other teaching staff may have left the school building and also ensures that they have the knowledge required to create a fun, safe and stimulating play environment that meets the needs of the children that attend;
- benefit from shared resources and training that clubs can access;
- have access to Local Authority funding (where available).

### What are the benefits of registering your School's Out of School Childcare Club with Care Inspectorate Wales?

The benefits of registered childcare are wide ranging; enhancing the service offered, support provided to families along with vital assurance about the quality of care their children receive, supporting the Local Authority's legal duties and most importantly improving the opportunities for children attending the service.



### Benefits to families

The major beneficiaries of an increased availability of registered childcare are the families that use your school. By maintaining a registered childcare provision on your site, families will be able to benefit from:

- increased employment opportunities – by you being able to operate for over 2 hours each day and with the potential to extend services to offer holiday childcare;
- access to Tax Credits or the new Tax Free Childcare scheme – supporting affordable childcare for eligible working families;
- assurance that their child is being cared for by appropriately qualified, trained and experienced staff;
- an improved work/home life balance – by providing peace of mind to families, and therefore supporting the child's quality of life (Article 27, United Nations Convention on the Rights of the Child, UNCRC).



### Supporting your Local Authority

Every Local Authority in Wales has a legal duty under the Welsh Government's Childcare Act 2006 to ensure there is sufficient, high quality childcare, with priority given to registered provision within counties to meet the needs of working parents, in particular those on low incomes. By registering your service, you will support this by:

- increasing the number of registered childcare places within the local authority;
- ensuring a minimum standard of childcare quality is being provided to families in the county.

### Benefits to the children and young people

It is important for children and young people that they attend a club that makes them feel safe (Article 19, UNCRC), and that they are able to have fun and make new friends (Article 15 & 31, UNCRC). Registered childcare provision supports this by:

- ensuring that staff are suitably trained and experienced in providing childcare so that they are able to create the best environment and experience possible for the children in their care (Article 3, UNCRC);
- providing a range of fun play opportunities for children to develop social skills, make new friends and learn new things and enhance the reputation of the school and its profile within the community.
- giving an Increased opportunity for children to develop holistically, with play and leisure time enhancing their academic development

Working in partnership with: Llywodraeth Cymru Welsh Government

cwlwm

## If your Out of School Childcare Club is not registered with Care Inspectorate Wales, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can assist you through the registration process.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

When registering your Out of School Childcare Club with CIW there are many different models of Governance that may be considered to assist you as Head-Teachers with the process. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can help you to review your current structure and assist you to amend if necessary to a more appropriate structure i.e. Committee run, Charitable Incorporated Organisations, Subcontracted to private provider, or as a body under the Governors of the school through the Head-Teacher.

**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs exists to help communities in Wales by promoting, developing and supporting quality, affordable, accessible Out of School Childcare Clubs.**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs is a bilingual voluntary charitable organisation (1093260) and a company limited by guarantee (4296436). Set up in October 2001, it exists to help communities in Wales by promoting, developing and supporting quality, affordable, accessible Out of School Childcare Clubs.

Contact us using the details below.


| Head Office & South East Wales Office | North Wales Regional Office | West Wales Regional Office |
|---|---|---|
| Bridge House<br>Station Road<br>Llanishen<br>Cardiff<br>CF14 5UW<br>T: 029 2074 1000<br>E: info@clybiauplantcymru.org | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>19 Princes Drive, Colwyn Bay, Conwy,<br>LL29 8HT<br>T: 01492 536318<br>E: info-nw@clybiauplantcymru.org | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>Unit 2, Clos Gelliwerdd, Cross Hands Business Park, Cross Hands,<br>Carmarthenshire SA14 6RX<br>T: 01269 831010<br>E: info-ww@clybiauplantcymru.org |

www.clybiauplantcymru.org

# Pam y dylech gofrestru Clwb Gofal Plant All-Ysgol eich Ysgol chi gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

(Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru [AGGCC]) gynt

## Pam ei bod hi mor bwysig bod gofal plant wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

Yng Nghymru mae gwarchod plant a darparu gofal dydd yn ddarostyngedig i reoleiddiad Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gynt. Os yw darpariaeth gofal plant yn rhedeg am dros 2 awr y dydd i blant hyd at 12 mlwydd oed, rhaid iddo, yn ôl y gyfraith, fod wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae AGC yn sicrhau bod gwasanaethau gofal yn bodloni'r safon sy'n ddisgwyliedig gan y cyhoedd drwy archwiliadau.. Mae AGC yn gyfrifol am archwilio gwasanaethau gofal dydd i blant, yn cynnwys Meithrinfeydd Dydd ac Eraill, Gwarchodwyr Plant, Cylchoedd Chwarae a Chlybiau Gofal Plant All-Ysgol (yn cynnwys Clybiau Gofal Plant Gwyliau).





## Manteision i'r clwb

Fel darparydd y gwasanaeth, yn ogystal â'r bodlonrwydd a ddaw o gynnig gwasanaeth o ansawdd sy'n medru bodloni anghenion gofal-plant parhaus y teuluoedd sy'n cyrchu'ch ysgol, byddwch hefyd yn:

- rhoi'r modd i deuluoedd gael help gyda chost ffioedd gofal plant, gan liniaru'r straen
ariannol ar deuluoedd a chynyddu cynaliadwyedd y clwb;
- denu teuluoedd i'r ysgol - mae argaeledd darpariaeth gofal plant cofrestredig yn ffactor dylanwadol wrth symud tŷ a dewis ysgolion;
- cynorthwyo a chreu cyfleoedd am gyflogaeth yn y gymuned leol;
- medru cyflenwi'r Cynnig Gofal Plant – dim ond lleoliadau Gofal Plant All-Ysgol cofrestredig sy'n gallu cyflenwi'r Cynnig.
   - o Bydd y Cynnig Gofal Plant yn darparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio* hyd at uchafswm o 30 awr o ofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth wedi'i gyfuno ag addysg gynnar i blant 3 a 4 blwydd oed sy'n gymwys, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. *gweler y canllawiau ar gymhwysedd (http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/information-for-parents/?skip=1&lang=cy)
   - o BYDD cynnig lle i blentyn cymwys yn golygu mwy o gynaliadwyedd i'ch clwb - a fyddai hyd at £3,,510.00 o incwm ychwanegol i'ch Clwb Ôl-Ysgol, neu £1,215 o incwm ychwanegol i'ch Clwb Gwyliau, fesul plentyn, wneud gwahaniaeth?
- hyderus fod y ddarpariaeth gofal plant ar eich safle'n bodloni'r rheoliadau gofal-plant perthnasol ac yn cynnig gwasanaeth o ansawdd sydd wedi ei reoleiddio ac sy'n cael ei archwilio yn ôl safonau Llywodraeth Cymru. Mae gofal plant o ansawdd yn golygu gwell canlyniadau i blant;
- rhoi budd i blant gan y byddant yn fwy cyffyrddus yn yr ysgol, a hynny'n arwain at fwy o bresenoldeb yn yr ysgol a gwell cyflawniad gan y disgyblion;
- hyderus fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio mewn darpariaeth yn meddu ar y cymwysterau gofal plant / Gwaith Chwarae perthnasol ac wedi eu hyfforddi mewn meysydd eraill megis cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi'n briodol i reoli lleoliad gofal plant ytu allan i oriau ysgol, pan fydd aelodau eraill o'r staff dysgu, efallai, wedi gadael adeilad yr ysgol. Mae hefyd yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ofynnol i greu amgylchedd chwarae hwyliog, diogel ac ysgogol sy'n ateb anghenion y plant sy'n mynychu;
- elwa o rannu adnoddau a hyfforddiant ar y cyd â chlybiau eraill;
- cael mynediad at Ariannu Awdurdod Lleol (lle bo hynny ar gael).

## Beth yw manteision cofrestru Clwb Gofal Plant All-Ysgol eich Ysgol chi gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

Mae manteision pellgyrhaeddol i ofal plant cofrestredig; y mae'n ategu at y gwasanaeth a gynigir, yn rhoi cefnogaeth i deuluoedd, ynghyd â sicrwydd cwbl angenrheidiol ynghylch ansawdd y gofal y mae'u plant yn ei dderbyn. Y mae'n gydnaws â dyletswyddau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol, ac yn bwysicach fyth, yn rhoi gwell cyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.



## Manteision i deuluoedd

Priffuddiolwyr y cynnydd mewn argaeledd gofal plant cofrestredig yw'r teuluoedd sy'n defnyddio'ch ysgol. Drwy gynnal darpariaeth gofal plant cofrestredig ar eich safle, bydd modd i deuluoedd elwa o:

- gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth – wrth i chi allu gweithredu am dros 2 awr bob dydd, a'r potensial i ymestyn gwasanaethau i gynnig gofal plant gwyliau;
- mynediad at Gredydau Treth neu'r cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd – sy'n help i wneud gofal plant yn fforddiadwy i deuluoedd cymwys sy'n gweithio;
- y sicrwydd bod eu plentyn yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu cymhwyso'n briodol, sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n brofiadol.

Gwell cydbwysedd gwaith/bywyd cartref – drwy roi tawelwch meddwl i deuluoedd, ac felly gyfrannu at welliant yn ansawdd bywyd y plentyn (Erthygl 27, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, [UNCRC]).



## Cefnogi eich Awdurdod Lleol

Mae gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol yn ôl Deddf Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau bod digon o ofal plant o ansawdd da, a blaenoriaeth yn cael ei roi i ddarpariaethau cofrestredig mewn siroedd i ateb anghenion rhieni sy'n gweithio, yn arbennig rhai ar incwm isel. Drwy gofrestru eich gwasanaeth byddwch yn cefnogi hyn drwy:

- gynyddu'r nifer o leoedd gofal-plant cofrestredig yn yr awdurdod lleol;
- sicrhau bod safon sylfaenol o ofal plant yn cael ei ddarparu i deuluoedd yn y sir.

## Manteision i'r plant a'r bobl ifanc

Mae'n bwysig i'r plant a'r bobl ifanc eu bod yn mynychu clwb sy'n eu gwneud i deimlo'n ddiogel (Erthygl 19, UNCRC), a bod cyfle iddynt gael hwyl a gwneud ffrindiau newydd (Erthyglau 15 a 31, UNCRC). Mae'r ddarpariaeth o ofal plant cofrestredig yn cefnogi hyn drwy:

- sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn brofiadol mewn darparu gofal plant fel eu bod yn gallu creu'r amgylchedd a'r profiad gorau i'r plant yn eu gofal (Erthygl 3, UNCRC);
- darparu dewis eang o gyfleoedd chwarae sydd yn hwyl i'r plant er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau cymdeithasol, gwneud ffrindiau newydd a dysgu pethau newydd ac ategu at enw da yr ysgol a'i phroffil yn y gymuned.
- Rhoi mwy o gyfle i blant datblygu'n gyfannol, a chwarae ac amser hamdden yn gwella'u datblygiad academaidd.

Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government

cwlwm

## Os nad yw'r Clwb Gofal Plant All-Ysgol wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich cynorthwyo drwy'r broses gofrestru.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Wrth gofrestru eich Clwb Gofal Plant All-Ysgol gydag AGC mae sawl gwahanol fodel o Lywodraethiad y gellid eu hystyried i'ch cynorthwyo chi fel Penaethiaid gyda'r broses. Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich helpu i adolygu eich strwythur bresennol a'ch cynorthwyo i'w ddiwygio, os bydd rhaid, i fod yn strwythur mwy priodol, h.y. un a fydd yn cael ei redeg gan bwyllgor, Cyfundrefn Gorfforedig Elusennol, un a fydd wedi ei is-gontractio i ddarparydd preifat, neu fel corff dan ofal Llywodraethwyr yr ysgol drwy'r Pennaeth.

**Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sydd o ansawdd, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.**

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gyfundrefn elusennol, wirfoddol, dwyieithog (1093260) ac yn gwmni a gyfyngir trwy warant (4296436). Wedi ei sefydlu yn Hydref 2001, ei phwrpas yw helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sydd o ansawdd, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod.

| Prif Swyddfa & Swyddfa De Ddwyrain Cymru | Swyddfa Rhanbarthol Gogledd Cymru | Swyddfa Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
|---|---|---|
| Tŷ'r Bont<br>Ffordd yr Orsaf<br>Llanisien<br>Caerdydd<br>CF14 5UW<br>T: 029 2074 1000<br>E: info@clybiauplantcymru.org | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>19 Princes Drive, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8HT<br>T: 01492 536318<br>E: info-nw@clybiauplantcymru.org | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin SA14 6RX<br>T: 01269 831010<br>E: info-ww@clybiauplantcymru.org |

www.clybiauplantcymru.org